

Adroddiad ar gyfer	Y Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	15 Chwefror 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Bobby Feeley / Nigel Jones a Claire Owens
Awdur yr Adroddiad	Claire Owens
Teitl	Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022 – 2026, gydag adolygiad canol cyfnod. Y mae'r Strategaeth yn amlinellu cyfeiriad strategol gwasanaethau cefnogi Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thai, a dulliau'r Cyngor o atal digartrefedd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cael cefnogaeth er mwyn i Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) amlinellu gweledigaeth a dull gweithredu Sir Ddinbych o fynd i'r afael â digartrefedd a darparu gwasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai yn seiliedig ar asesiad o angen.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cytuno gyda gweledigaeth a chyfeiriad strategol Sir Ddinbych a amlinellir yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, ac yn cymeradwyo cyhoeddi'r ddogfen.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Y mae'n rhaid i Strategaeth y RhCT (Atodiad 1) fod yr unig ddogfen strategol ar gymorth tai ac atal digartrefedd gan y Cyngor. Wrth ei datblygu, yr ydym wedi sicrhau ei bod yn gyson â'r Strategaeth Tai a Digartrefedd presennol, sydd yn cael ei fonitro gan Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd. Y mae'r Strategaeth yn

ymdrin ag elfennau strategol atal digartrefedd ynghyd â chymorth ehangach yn ymwneud â thai wedi ei ariannu drwy'r Grant Cymorth Tai.

- 4.2. Wrth ddatblygu Strategaeth y RhCT, ymgwymerwyd ag asesiad trylwyr o anghenion gydag ystod o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion sydd wedi bod yn ddigartref ac wedi cael gafael ar wasanaethau, rhai sy'n darparu gwasanaethau cefnogi - gan gynnwys Sefydliadau'r Trydydd Sector a phartneriaid statudol eraill megis BIPBC, yr Heddlu a Gwasanaethau Prawf.
- 4.3. O'r asesiad o anghenion, y data perfformiad a'r gwaith a wnaed eisoes wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau mewnol eraill, cytunwyd ar 7 blaenoriaeth i'r cynllun. Y mae'r blaenoriaethau hyn wedi eu cysoni â'r dull Corfforaethol o ymdrin â digartrefedd ac, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r camau gweithredu o fewn y Cynllun Gweithredu Strategol Tai a Digartrefedd presennol, megis:- Mabwysiadu Dull Gweithredu o Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Digartrefedd; Cael gafael ar lety parhaol yn enwedig ar gyfer pobl sengl dan 35 mlwydd oed; Darparu Gwasanaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar wedi ei dargedu; Cael gafael ar ein Llety Dros Dro Brys ein hunain, a thrwy hynny leihau ein dibyniaeth ar lety gwely a brecwast; Cryfhau darpariaeth gwasanaethau cefnogi amlddisgyblaethol. Ceir blaenoriaethau ychwanegol sydd wedi eu canfod drwy'r asesiad o anghenion trylwyr a wnaed. Y mae'r rhain yn cynnwys:- ehangu mynediad at wasanaethau cefnogi cymunedol; a chodi lefel y gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sydd yn amserol ac yn gymesur ag angen yr aelwyd.
- 4.4. Cynhwysir cynllun gweithredu drafft yn y ddogfen er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Strategaeth y RhCT dros y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2026. Fodd bynnag, yr ydym angen ychwanegu camau gweithredu tymor hirach, gan mai camau gweithredu ar gyfer y tymor byr yn unig sydd yn y cynllun ar hyn o bryd, ac amserlenni y cytunwyd arnynt cyn cyhoeddi'r strategaeth. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol. Yn ogystal â hyn byddwn yn datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid cwblhau hwn erbyn mis Medi 2022.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae Strategaeth y RhCT yn cyfrannu tuag at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017 – 2022 yn y meysydd canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Bydd gweithredu'r Strategaeth dros y 4 blynedd nesaf yn cael ei gyllido o ffrydiau cyllido presennol megis Grant Cymorth Tai, Grant Tai Cymdeithasol, Cyfrif Refeniw Tai a chyllideb graidd. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i gael nawdd ychwanegol, lle bo'n bosibl ac yn briodol, o grantiau Llywodraeth Cymru.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gydag ystod o fudd-ddeiliaid a phartneriaid (a restrir yn 4.2) i gasglu gwybodaeth er mwyn gwneud yr asesiad o anghenion a phenderfynu ar flaenoriaethau'r strategaeth.

8.2. Cyflwynwyd Cynllun Cam 2 y Strategaeth Tai a Digartrefedd i gyfarfod Briffio'r Cabinet ym mis Tachwedd 2020 a'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2020. Mae diweddariadau ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Tai a Digartrefedd wedi eu darparu i'r Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd yn eu cyfarfodydd chwarterol yn dechrau ym mis Chwefror 2021.

8.3. Yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet, a hefyd yng nghyfarfod Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl ym mis Ebrill

2021, trafodwyd yr egwyddor o'r Cyngor yn darparu llety mewnlol dros dro, ac addasu dull dilyniannol o weithredu i nodi eiddo addas ar gyfer cyflawni hyn a fyddai'n osgoi lle bo'n bosibl leoliad y math hwn o lety mewn ardaloedd sydd eisoes yn wynebu lefelau uchel o amddifadedd. Bydd yna ymgynghoriad parhaus gyda holl Grwpiau Ardal yr Aelodau er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â digartrefedd ledled y Sir.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Y mae'r maes gwasanaeth hwn wedi derbyn buddsoddiad sylweddol gan GSDd a ffynonellau nawdd allanol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Croesewir y ffaith y parheir i wneud y gorau o bob ffrwd gyllido er mwyn cynorthwyo i ariannu gweithredu'r strategaeth yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, y mae'n debygol y bydd y gwasanaeth yn parhau i fod yn faes sydd o dan bwysau, a all fod angen buddsoddiad pellach. Bydd penderfyniadau ariannu yn cael eu gwneud fel rhan o'r prosesau cymeradwyo refeniw a chyllideb cyfalaf y cytunwyd arnynt.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni chanfuwyd bod unrhyw risg o ganlyniad i gyhoeddi Strategaeth y RhCT fel gweledigaeth lefel uchel a chyfarwyddyd strategol unigol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd a darparu gwasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.2 (b) yng Nghyfansoddiad y Cyngor.